# Rhaglen Mentora Bwrdd newydd i Gymru

HOUSING DIVERSITY NETWORK

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru

Community Housing Cymru Group

## Rhaglen Mentora Bwrdd HDN/CHC Cymru

### Cyfarfod Lansio De Cymru

### 14.00 – 16.00 Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015

### Cynhelir yn swyddfa Cartrefi Cymunedol Cymru

### 2 Ocean Way, Caerdydd CF24 5TG








- Mae byrddau'n gyfrifol am redeg busnesau cynyddol gymhleth, eu rhedeg yn broffesiynol a moesegol i gyflawni eu diben, gweledigaeth a gwerthoedd.

- Daw'r dyfodol â risgiau, anghenion a chyfleoedd gwahanol.

- Nid yw "gweddol" yn ddigon da yn amgylchedd gwleidyddol, economaidd, busnes, rheoleiddiol a chymdeithasol heddiw i oroesi ac addasu i ofynion a chyfleoedd yfory.

- Mae gan aelodau Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth redeg sefydliadau. Mewn amgylchedd busnes cynyddol gymhleth, ni fu llywodraethiant da erioed yn bwysicach!

Yn dilyn y rhaglen beilot lwyddiannus ac wedyn ymestyn y rhaglen genedlaethol yn Lloegr yn 2015, mae'r Rhwydwaith Amrywiaeth Tai (HDN) yn falch iawn i uno gyda Cartrefi Cymunedol Cymru i gynnal dwy sesiwn ymgynghori fer i asesu os oes awydd cael rhaglen fentora debyg ar gyfer aelodau bwrdd a darpar aelodau bwrdd yng Nghymru.

Er wrth gwrs fod gwahanol systemau rheoleiddio yn y ddwy wlad, mae llawer iawn o faterion a disgwyliadau (ac wrth gwrs, bwysau) tebyg ar aelodau bwrdd yng Nghymru ac yn Lloegr.

**Bydd y sesiwn ymgynghori yn:**

- Rhoi mwy o wybodaeth ar y rhaglen a sut i gymryd rhan.
- Rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau ar ddatblygu'r rhaglen yng Nghymru.
- Cwrdd â sefydliadau eraill o Gymru a mannau eraill sydd â diddordeb mewn gwella llywodraethiant a datblygu aelodau bwrdd a hefyd aelodau bwrdd o Loegr a gymerodd ran un ai fel rhai a gafodd eu mentora neu fel mentoriaid ar y cynllun peilot gwreiddiol neu ar y rhaglen bresennol.

Anelwyd y sesiwn yn bennaf at Brif Weithredwyr, Cadeiryddion Bwrdd, Swyddogion Arweiniol Llywodraethiant ac aelodau Bwrdd sefydliadau sydd â diddordeb mewn creu a chefnogi rhaglen yng Nghymru.

I archebu lle ar y digwyddiad **rhad ac am ddim**
yma anfonwch e-bost at
Jenny-Horton@chcymru.org.uk

Am ymholiadau am y rhaglen mentora bwrdd neu HDN
ffoniwch ni ar 01484 652606 neu anfon e-bost at
boardmentoring@housingdiversitynetwork.co.uk

# Rhaglen

| | |
|---|---|
| 2.00 | Cyflwyniad: Mentora Bwrdd a pham ei fod yn bwysig nawr |
| | Amcanion y rhaglen beilot, dull, llwyddiant a dysgu |
| | Ymestyn rhaglen 2015 a thu hwnt<br><br>• Barn Cartrefi Cymunedol Cymru: Amanda Oliver, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, CHC<br><br>• Potensial ar gyfer sefydlu rhaglen genedlaethol mentora bwrdd yng Nghymru: Elfennau allweddol ac opsiynau |
| 3.00 | Fforwm agored / trafodaeth a chwestiynau |
| 3.30 | Y camau nesaf |
| 3.45 | Lluniaeth a rhwydweithio |
| 4.00 | Diwedd |

HOUSING DIVERSITY NETWORK

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru

Community Housing Cymru Group

Housing Diversity Network
Colne Valley House
511b Blackmoorfoot Road
Crosland Moor
Huddersfield
HD4 5NR

Ffôn: 01484 652 606
E-bost: boardmentoring@housingdiversitynetwork.co.uk
Gwefan: www.housingdiversitynetwork.co.uk